

# Gweddio dros Wcráin



**Arglwydd Dduw,**

Gweddïwn heddiw dros y gwrthdaro sydd yn parhau yn Wcráin.  
Mae'n calon yn gwaeddi allan am dosturi i'r rhai sydd mewn perygl ac mewn ofn.  
Yr ydym yn gweddio y bydd y bomiau yn cael eu hatal, y bwledi yn peidio.  
Yr ydym yn gweddio y bydd heddwch yn teyrnasu.

Gweddïwn dros y gwleidyddion, ac yn arbennig Putin, i atal - ie atal.  
I geisio ffordd tangnefedd yn hytrach na llwybr trais.  
Yr ydym yn gweddio y bydd heddwch yn teyrnasu.

Gweddïwn dros arweinwyr byd i ganfod doethineb, i garu cyfiawnder,  
i agor eu calonnau ac hefyd eu ffiniau i bawb sy'n ffoi rhag y tywallt gwaed.  
Yr ydym yn gweddio y bydd heddwch yn teyrnasu.

Ac uwchlaw popeth, gweddïwn dros bobl Wcráin.  
Gwarchod nhw, cadw nhw'n ddiogel, gwna nhw'n gryf.  
Rho iddynt ddewrder, rho iddynt obaith.  
Yr ydym yn gweddio Arglwydd mawr y bydd dy heddwch yn teyrnasu.

Amen

**Gweddï dros Wcráin gan Sally Foster-Fulton,**  
Penaeth Y Cenhedloedd a Chysylltiadau Eglwysi, Cymorth Cristnogol.

Ffiniau, gwrthglawdd, dryswch.....  
Pan fydd y bargeinio yn dechrau,  
O Dduw diogela heddwch.

Sanctsiynau, mesurau diogelwch mewn munudau ac mae'n frawychus....  
Pan fydd diogelwch ar chwâl,  
O Dduw diogela Heddwch.

Rhyfel wedi ei gwisgo mewn dillad cadwir heddwch,  
Byddin yn casglu, mae'r ddaear yn crynu a hefyd y bobl....  
Pan mae'r dyfodol yn teimlo'n fregus,  
O Dduw diogela heddwch.

Y lleiaf, y lleiaf tebygol i gael llais,  
Y rheini sydd a'u bywyd wedi'i hatal a'u bargeinio -  
Mae trais wastad yn dod o hyd iddyn nhw gyntaf.

Ac mae'r symudiadau gwleidyddol sydd O! mor bwysig, yn golygi dim iddyn nhw.  
Maen nhw dim ond eisiau byw.

Pan mae'r enillwyr am ei sychu nhw i ffwrdd,  
O Dduw diogela heddwch.

Wnawn ni ddim troi i ffwrdd. Fe safwn ni gyda'n gilydd -  
O Dduw rho i ni'r nerth i ddiogeli heddwch.  
Amen.

### **Arglwydd Dduw,**

Dywedaist wrthym, gwyn eu byd y tlawd eu hysbryd.

Gweddiwn heddiw dros y rhai sydd mewn lloches, dros y rhai sydd ar y ffin, dros y rhai sydd ar ffo.

Bydded iddyn nhw wybod am dy heddwch a'th ddiogelwch yn wyneb y fath drais.

Dywedaist wrthym, gwyn eu byd y rhai sydd mewn galar.

Gweddiwn heddiw dros y rhai sydd wedi colli cartrefi, bywoliaeth, a'r rhai maent yn eu caru.

Bydded iddynt gael eu cysuro, bydded iddynt gael eu diogelu, a'u bywyd wedi ei adfer.

Dywedaist wrthym gwyn eu byd y rhai addfwyn a'r rhai trugarog.

Gweddiwn heddiw dros y rheini sy'n bwriadu treisio.

Bydded i wleidyddion daflu lawr eu harfau rhyfel a cheisio yn hytrach reolau dy gyfiawnder.

Dywedaist wrthym gwyn eu byd y tangnefeddwyr.

Gweddiwn heddiw dros y rheini sydd yn ceisio heddwch yn Wcráin.

Bydded iddynt fod yn llwyddiannus, bydded iddynt ennill y dydd.

Dywedaist wrthym gwyn eu byd y rhai sydd yn newynu am gyfiawnder.

Gweddiwn heddiw y bydd ein gobeithion yn cael eu cyflawni.

Bydded i gyfiawnder orchfygu, bydded i heddwch gael ei adfer. Bydded i'th ewyllys gael ei gyflawni.

Amen

## Gweddi ar gyfer 3 Ebrill 2022

Dduw'r holl bobloedd a'r holl genhedloedd,  
a greodd bopeth byw ac sy'n anadlu,  
yn unedig ac yn gyflawn,  
dangos inni ffordd tangnefedd dy bresenoldeb llethol.  
Codwn bobloedd Wcráin a Rwsia atat,  
pob plentyn ac oedolyn.  
Dyhëwn am yr adeg  
pryd y caiff arfau rhyfel eu troi yn sychau aradr  
pryd na fydd cenedl yn codi cleddyf yn erbyn cenedl.  
Codwn ein llais atat am heddwch;  
diogela'r rhai sy ond yn dymuno ac yn haeddu byw mewn diogelwch .  
Cysura'r rhai sy mewn ofn am eu bywyd a bywyd eu ceraint.  
Bydd gyda'r rhai sy'n galaru.  
Newid galon y rhai sy'n mynnu trais ac ymosodiad  
a llenwa arweinwyr gyda'r doethineb sy'n arwain at heddwch.  
Cynnau ynom eto gariad am gymydog,  
ac angerdd dros gyfiawnder  
a chydabyddiaeth newydd fod gennym i gyd ran mewn heddwch.  
Greawdwr pawb, clyw ein gweddi  
a thyrd â heddwch. Gwna ni'n gyflawn.

Amen.